Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Goblygiadau Ariannol Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Tachwedd 2025

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 24 Ebrill 2024, bu Mark Isherwood AS yn llwyddiannus mewn pleidlais a gynhelir o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd, sef yr hawl i geisio caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Cafodd ganiatâd i fwrw ymlaen â'r Bil ar 19 Mehefin 2024[1].

**2.** Cafodd Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)[2] ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm)", gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ("yr Asesiad Effaith"), ei gyflwyno wedi hynny gan Mark Isherwood AS (yr Aelod sy'n gyfrifol) ar 14 Gorffennaf 2025.[3]

**3.** Clywodd y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 18 Medi 2025, gan y canlynol:

- Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Phrif Chwip;
- Amira Evans, Pennaeth Cydraddoldebau, Llywodraeth Cymru; a hefyd
- Bethany Thomas, Rheolwr Polisi Iaith Arwyddion Prydain, Llywodraeth Cymru.[4]

**4.** Wedi'i ddilyn gan sesiwn ar 24 Medi 2025 gyda'r Aelod sy'n gyfrifol:

- Mark Isherwood AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil;
- Gareth Rogers, Rheolwr y Bil, Comisiwn y Senedd; a hefyd
- Martin Jennings, Ymchwil y Senedd, Comisiwn y Senedd.[5]

**5.** Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a oedd yn gyfrifol am graffu ar y Bil o safbwynt polisi.[6]

**6.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil, hefyd, o ran y materion sy'n dod o fewn ei gylch gwaith.[7]

---

[1] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 19 Mehefin 2024
[2] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[3] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025
[5] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025
[6] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

# 2. Goblygiadau ariannol y Bil

**7.** Dyma yw diben y Bil:

- Gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o Iaith Arwyddion Prydain ("IAP") a llunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni'r ddyletswydd hon, a chyflwyno adroddiad ar eu cynnydd;
- gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus rhestredig i lunio a chyhoeddi cynllun sy'n disgrifio sut y maent yn bwriadu hwyluso'r defnydd o IAP, a chyflwyno adroddiad ar eu cynnydd. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi sut y gall cyrff cyhoeddus rhestredig hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- bod yn sylfaen i sicrhau bod gwasanaethau gwell, a chanlyniadau gwell, ar gael i'r gymuned Fyddar. Bydd cynyddu darpariaeth IAP yn gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg, yn gwella canlyniadau cyflogaeth i arwyddwyr IAP ac yn eu galluogi i fyw mewn cymdeithas lle mae eu hiaith a'u diwylliant yn cael eu cydnabod a'u hybu.[8]

## Crynodeb o'r costau

**8.** Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith wedi'u gwerthuso dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2026-27 a 2035-36 yn gynhwysol. Mae'r Asesiad Effaith yn dangos mai cyfanswm cost net y Bil dros y cyfnod asesu yw tua £3.8 miliwn i £4.1 miliwn.[9]

**9.** Amcangyfrifir bod y costau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru yn £1.6 miliwn ar draws y cyfnod asesu, gyda chyrff cyhoeddus rhestredig yn ysgwyddo costau rhwng £2.2 miliwn a £2.5 miliwn.

**10.** Mae crynodeb o'r costau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith wedi'u cynnwys yn y tabl isod:[10]

[8] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 3
[9] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 73
[10] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 73

Tabl 1. Costau sy'n gysylltiedig â Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) o 2026 i 2036

| **Disgrifiad o'r gost** | **Cost (£)** |
|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Cynghorydd | 1,131,800 |
| Panel cynorthwyo | 247,000 |
| Strategaeth a chanllawiau cenedlaethol cyntaf IAP | 106,100 |
| Adroddiad ar strategaeth | 60,100 |
| Strategaeth IAP wedi'i diweddaru | 64,600 |
| Cyfanswm y costau | 1,609,600 |
| **Costau cyrff cyhoeddus rhestredig** | |
| Cynllun IAP | 711,900 – 1,092,700 |
| Adrodd ar Gynllun IAP | 726,400 |
| Adolygu / diweddaru'r cynllun | 711,900 |
| Cyfanswm y costau | 2,150,200 – 2,531,000 |
| Cyfanswm costau'r Bil | 3,759,800 – 4,140,600 |

**11.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'i lywio gan sgyrsiau ffurfiol ac amrywiaeth o drafodaethau anffurfiol gyda grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol y bydd y Bil yn effeithio arnynt."*[11]

**12.** O ran ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod ei dîm wedi cael perthynas waith adeiladol â swyddogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ynghylch y costau ariannol sy'n gysylltiedig ag ef.[12]

**13.** Disgrifiodd yr Ysgrifennydd Cabinet hynny fel cydweithrediad cryf, gan ddatgan fel a ganlyn:

[11] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 76
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 12

> "*I'm really pleased to have been able to offer support and collaborate with Mark on this because it is about facilitating and promoting the use of BSL in Wales.*"[13]

**14.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, hefyd, fod y costau yn yr Asesiad Effaith yn rhesymol[14] a'u bod nhw, hefyd, yn gost-effeithiol ac yn cynrychioli gwerth am arian,[15] gan ychwanegu fel a ganlyn:

> "... *I think we're confident that, the way the RIA has been developed, it is estimating costs on known experience ... I think we're learning from Welsh legislation, and the Bill team supporting Mark is also looking to that experience.* So, it is consistent, we believe, in terms of that standardised approach to estimating costs."[16]

## Costau heb eu meintoli

**15.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol "nid yw manylion yr hyn a fydd yn y Strategaeth IAP Genedlaethol, y canllawiau cysylltiedig a'r cynlluniau IAP wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil ei hun". Mae'n nodi ymhellach:

> "*Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar gynnwys y Strategaeth IAP Genedlaethol a'r canllawiau. Bydd rhaid i bob un o'r cyrff cyhoeddus rhestredig benderfynu ar gynnwys ei gynllun IAP ei hun.*"[17]

**16.** Mae'r Asesiad Effaith yn esbonio mai'r strategaeth IAP Genedlaethol a'r cynlluniau IAP fydd y prif ddogfennau a fydd yn pennu sut y mae IAP yn cael ei hybu a'i hwyluso yng Nghymru. O ganlyniad, mae'n nodi fel a ganlyn:

> "*Heb wybod manylion llawn yr hyn a fydd yn y dogfennau allweddol hynny, rhaid cyfrif y costau a briodolir i'w gweithredu fel rhai heb eu meintioli.*"[18]

**17.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet y canlynol:

[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 150
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 158
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 162
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 189-190
[17] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 75
[18] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 75

> "*Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'n bosibl amcangyfrif yr union gostau gweithredu ar hyn o bryd, gan nad yw'r costau hyn wedi'u meintioli.*"[19]

**18.** Esboniodd yr Aelod sy'n gyfrifol pam nad oedd costau sy'n ymwneud â'r agweddau hyn ar y Bil wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith:

> "*… the Bill itself, as you know, is a framework Bill. It doesn't itself specify the actions that the strategy might direct or that public bodies might include in their plans. There are expectations about what that should include, but it doesn't prescribe what those should be or the further costings associated with that. So, the costings are accurate for what the Bill proposes, but they don't seek to address anything beyond that.*"[20]

**19.** Ychwanegodd y canlynol o ran yr amcangyfrifon costau yn yr Asesiad Effaith:

> "*… cannot and do not seek to identify any additional costs that might incur in consequence of the strategies and plans that the Bill would require.*"[21]

**20.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol, hefyd, nad oedd unrhyw fodelu costau yn y dyfodol wedi digwydd mewn unrhyw fanylder mawr, gan egluro fel a ganlyn:

> "*It's a private Member's Bill. Even with the Welsh Government working with us, that was only on what the Bill itself stated. We haven't got the resource to do that level of work.*"[22]

**21.** Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n gyfrifol, hefyd, y byddai cynhyrchu'r amcangyfrifon costau hyn wedi bod yn anodd dros ben, ac na allen nhw fod wedi rhoi disgwyliadau i Lywodraeth Cymru, chwaith, ar y pryd.[23]

---

[19] Llywodraeth Cymru, safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), tudalen 4
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 14
[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 16
[22] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 18
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 19

## Manteision

**22.** Yn ôl yr Asesiad Effaith, nid yw'n bosibl mesur manteision y Bil oherwydd bydd y rhain yn dibynnu ar gynnwys y strategaeth IAP genedlaethol a'r cynlluniau IAP, ynghyd â sut y cânt eu gweithredu ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n ychwanegu "y bydd manteision ymarferol y Bil yn sylweddol".[24]

**23.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol, hefyd, fod y Bil yn gosod disgwyliad realistig y bydd cyrff cyhoeddus "nid yn unig yn edrych ar hyn fel cost, ond fel buddsoddiad.[25]

**24.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, oherwydd natur fframwaith y Bil, ac oherwydd nad yw manylion strategaeth a chynlluniau Iaith Arwyddion Prydain yn hysbys eto, na all Llywodraeth Cymru asesu effaith gyffredinol y Bil na'i gost cyfan o ran manteision, yn llawn.[26]

**25.** Serch hynny, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> "… *there could be savings in terms of the fact that this is going to be about prevention, engagement and good delivery of services.*"[27]

## Barn y Pwyllgor

**26.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriadau'r Bil ac yn enwedig ymrwymiad yr Aelod sy'n gyfrifol i sicrhau ei fod yn arwain at gamau ystyrlon i sicrhau gwasanaethau gwell a chanlyniadau gwell i'r gymuned fyddar.

**27.** Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi bod Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Aelod sy'n gyfrifol i gefnogi'r broses o ddrafftio'r Bil a'r Asesiad Effaith, a bod hyn wedi ymestyn i gefnogaeth dechnegol a pholisi, sydd wedi llywio'r amcangyfrifon costau. Rydym o'r farn bod hyn wedi arwain at gostau clir a chadarn, ac yn dangos beth y gellir ei gyflawni pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r llywodraeth ar ddatblygu deddfwriaeth. At hynny, rydym yn cymeradwyo'r dull cydweithredol hwn y dylid ei ystyried yn fodel o arfer da.

---

[24] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 93
[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 20
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 155-156
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 169

**28.** Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol[28] i Lywodraeth Cymru weithio gydag Aelodau unigol a/neu'r Pwyllgor sy'n cynnig deddfwriaeth drwy ddarparu gwybodaeth ac arbenigedd ariannol perthnasol cyn cyflwyno, Bil ac rydym yn croesawu bod y dull hwn wedi'i ddilyn y tro hwn.

**29.** Mae'r Pwyllgor yn nodi mai Bil fframwaith yw hwn, sy'n nodi meysydd gweithredu a disgwyliadau penodol, ac nad yw costau sy'n ymwneud â gweithredu darpariaethau allweddol, megis y strategaeth IAP a chynlluniau IAP, wedi'u modelu na'u mesur (mae ystyriaeth o gostau penodol sy'n ymwneud â'r strategaeth a'r cynllun yn fanylach o dan bennod 3 yn cael ei hystyried mewn manylder pellach o dan pennod 3).

**30.** Rydym, hefyd, yn nodi y gallai'r Bil arwain at arbedion sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau ac atal a buddion eraill, ac yn cytuno â'r Aelod sy'n gyfrifol y dylid ystyried y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil fel buddsoddiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, hefyd, nad yw'r manteision hyn wedi'u costio gan nad yw manylion y strategaeth a'r cynlluniau yn hysbys eto. Mae'r Pwyllgor yn deall pam nad yw wedi bod yn bosibl mesur y costau hyn o ystyried eu bod yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Bil, ac oherwydd yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen i gynhyrchu ffigurau o'r fath ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, hefyd, bod cyfrifo costau o'r fath yn anodd, oherwydd y diffyg gwybodaeth sydd ar gael fel sail ar gyfer unrhyw gyfrifiadau.

**31.** Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai tryloywder ychwanegol ynghylch y gwaith a wneir i gyfrifo manteision y Bil yn ddefnyddiol, er mwyn deall yr arbedion y gellid eu cronni, ac rydym yn gofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu'r costau hyn.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon, ar y cyfan, ar oblygiadau ariannol y Bil fel y'u nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn ddarostyngedig i'r sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

**Casgliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull cydweithredol rhwng yr Aelod sy'n gyfrifol a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu costau'r Bil, ac yn ystyried hyn yn fodel o arfer da ar gyfer Biliau anllywodraethol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Cabinet i ddadansoddi manteision costau'r Bil, ac yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y

[28] Y, Pwyllgor Cyllid, Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru) Mai 2023, Argymhelliad 1

manteision hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi, a pha bryd y disgwylir iddynt gael eu cyflawni.

# 3. Costau penodol sy’n deillio o'r Bil

## Costau Llywodraeth Cymru

**32.** O dan y Bil, Llywodraeth Cymru fyddai’n datblygu Strategaeth IAP gyda mewnbwn gan Gynghorydd IAP a phanel cynorthwyo, a fydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer cynlluniau IAP lleol i'w datblygu gan y cyrff cyhoeddus rhestredig. Bydd yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i weinyddu’r Bil yn cael eu pennu gan faint o fewnbwn ychwanegol sydd ei angen ar ben gwaith polisi a chynllunio Llywodraeth Cymru hyd at y pwynt y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

**33.** Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn yr Asesiad Effaith wedi'u seilio ar y costau gros cyfartalog diweddaraf ar gyfer bandiau cyflog staff yn ystod 2023-24, fel y nodir yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, gan ddefnyddio blwyddyn 52 wythnos ac wythnos waith o bum niwrnod.[29] Mae'r costau hyn yn cynnwys costau cyflogaeth ychwanegol, megis pensiwn a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

**34.** Mae papur yr Ysgrifennydd Cabinet yn cadarnhau’r canlynol:

> “*Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod rhagdybiaethau rhesymol wedi'u gwneud wrth ddatblygu amcangyfrifon ar gyfer y costau gweinyddol blynyddol i Lywodraeth Cymru.*”[30]

**35.** Mae'r Asesiad Effaith yn nodi nad yw'n bosibl amcangyfrif yr adnoddau staffio presennol ar gyfer gweinyddu polisi IAP Cymru er mwyn amcangyfrif costau'r *status quo* presennol, gan ychwanegu fel a ganlyn:

> “ *… nid yw'n bosibl cyfrifo sut y gellid ailddyrannu'r adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd nac, felly, unrhyw arbedion gweinyddol i Lywodraeth Cymru a fyddai'n deillio o'r Bil hwn.*”[31]

**36.** Mae'r Asesiad Effaith yn amcangyfrif y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau o £214,300 yn ystod blwyddyn gyntaf y cyfnod asesu (2026-27). Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf 2025, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd “Llywodraeth Cymru yn darparu'r costau'n llawn, fel yr

[29] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 78
[30] Llywodraeth Cymru, Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru),
Medi 2025, tudalen 3
[31] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 82

amlinellwyd gennych, ar gyfer y flwyddyn gyntaf, £214,300 ar gyfer 2026-27"[32], pwynt a ailadroddwyd ganddi wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.[33]

**37.** Darparwyd rhagor o fanylion am y cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r Bil yn nhystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet:

> "*Bydd y cyllid ar gyfer 2026-27 yn cael ei ddyrannu i'r Prif Grŵp Gwariant Cyfiawnder Cymdeithasol fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2026-27. Cyllideb un flwyddyn fydd Cyllideb Ddrafft 2026-27. Ni fydd yn cynnwys rhagdybiaethau cynllunio mewn perthynas â llinellau sylfaen blynyddoedd i ddod. Mater i'r Llywodraeth newydd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2026 fydd ariannu'r costau ar gyfer blynyddoedd i ddod, y tu hwnt i 2026-27.*"[34]

**38.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor, hefyd, y byddai cyllido'r broses o weithredu'r Bil y tu hwnt i 2026-27 yn rhywbeth ar gyfer llywodraethau'r dyfodol, gan ychwanegu fel a ganlyn:

> "*We're not binding future Governments and neither can the Member, obviously, identify what all those costs will be for the future, but it's important that in his RIA, he has given that range, in terms of the listed public bodies, of costs. BSL guidance will have an impact on that in terms of what administrative and implementation costs are likely to be.*"[35]

**39.** O ran y costau a ddyrannwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chefnogi IAP, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> "*… we've allocated £270,000 annually on posts that support BSL policy work, and that's distinct from our disability rights policy team.*"[36]

[32] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2025, paragraff 306
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 167
[34] Llywodraeth Cymru, Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru),
Medi 2025, tudalen 3
[35] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 202
[36] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraffau 209-210

**40.** Rhoddodd swyddog yng nghwmni'r Ysgrifennydd Cabinet fanylion pellach ynghylch gweithgareddau IAP Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, gan amlinellu fel a ganlyn:

> "… *in 2024-25, the Welsh Government established a BSL policy team within our equality and human rights division, and half the team are presented here today. The Cabinet Secretary announced in November 2024 that we would set up a BSL stakeholder group—it was a task and finish group—and that we would also develop a BSL route-map.*"[37]

**41.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oes unrhyw wrthdaro rhwng ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru ac amcanion y ddeddfwriaeth, gan ddatgan bod y gwaith presennol yn paratoi'r ffordd ar gyfer y Bil, a'i fod yn gweithio'n dda iawn.[38]

**42.** Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol y canlynol o ran gweithgareddau IAP cyfredol Llywodraeth Cymru:

> "… *does suggest that some of the work they're planning to do over the next 18 months is going to tie in and that's going to be some of the background work. So, I'd agree, there's some netting off there, but we don't know what.*"[39]

## Cynghorydd IAP a phanel cynorthwyol

**43.** Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person i fod yn Gynghorydd IAP, gyda'r costau sy'n gysylltiedig â phenodi Cynghorydd IAP yn disgyn ar Lywodraeth Cymru. Mae'r costau'n ymwneud yn bennaf â chyflog y Cynghorydd IAP ond bydd costau trosiannol hefyd yn gysylltiedig â recriwtio i'r swydd.[40]

**44.** Yn ôl yr Asesiad Effaith,[41] mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi seilio amcangyfrifon ar gostau ymarfer recriwtio tebyg yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru, sef Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf Trais a Cham-drin Domestig").[42]

---

[37] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 164
[38] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 174
[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 35
[40] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 82
[41] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 82
[42] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**45.** Mae'r Ddeddf Trais a Cham-drin Domestig yn cynnwys y gofyniad i benodi Cynghorydd Gweinidogol, ac amcangyfrifwyd mai £11,000 fyddai'r gost recriwtio. Mae hyn yn cynnwys cost hysbysebu'r swydd yn y wasg leol a chenedlaethol, penodi Asesydd Annibynnol i oruchwylio'r broses, sefydlu panel dethol a darparu cefnogaeth weinyddol drwy gydol y broses a threuliau ymgeiswyr.[43]

**46.** Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u bodloni bod y person a benodir yn gynghorydd yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn IAP ac yn ei defnyddio. O ystyried y gofyniad hwn, bydd y broses recriwtio yn cynnwys cyfieithydd IAP, gyda'r costau cysylltiedig yn cynnwys gwasanaethau IAP am ddau ddiwrnod. Mae'r cyfraddau dyddiol a ddefnyddir yn seiliedig ar ddyfynbrisiau, a ddarparwyd i dîm Bil yr Aelod, am ddarparu gwasanaethau IAP (£315 am ddiwrnod cyfan a £195 am hanner diwrnod, ynghyd â TAW). Amcangyfrifir mai cyfanswm y costau recriwtio, sy'n gostau untro neu drosiannol, yw £15,800.[44]

**47.** Byddai angen i'r Cynghorydd IAP weithio gyda Gweinidogion ac uwch swyddogion ar draws adrannau Llywodraeth Cymru. Mabwysiadwyd dull tebyg i'r amcangyfrifon o'r costau ar gyfer y Deddf Trais a Cham-drin Domestig. Fel gyda'r rôl hon, nid swydd gwasanaeth sifil oedd y Cynghorydd Gweinidogol a oedd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Trais a Cham-drin Domestig, ond mae angen i gyflog y swydd adlewyrchu gofynion y rôl.[45]

**48.** Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol wedi gosod cyflog y Cynghorydd Gweinidogol ym Mand Gweithredol 1 (Gradd 6) graddfa gyflog Llywodraeth Cymru, gyda chostau ychwanegol (gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol, pensiwn, costau TG a chostau teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau a dyletswyddau).[46]

**49.** Mae'r Aelod sy'n Gyfrifol yn rhagweld y lleolir rôl y Cynghorydd IAP yn un o adeiladau Llywodraeth Cymru, ac felly ni fydd angen unrhyw gyfleusterau swyddfa ychwanegol, ac mae'r gefnogaeth weinyddol a ddarperir gan staff Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn yr amcangyfrifon o'r costau ar gyfer gofynion eraill y Bil. Ni fydd, felly, angen unrhyw adnoddau pellach.[47]

---

[43] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Memorandwm Esboniadol, Chwefror 2025, tudalen 54
[44] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 82
[45] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 84
[46] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 84
[47] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 84

**50.** Mae'r Bil, hefyd, yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi pobl i fod yn aelodau o banel i gynorthwyo'r Cynghorydd IAP.[48] O ran costau cefnogi'r panel cynorthwyo IAP, ystyriwyd y costau, hefyd, a oedd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Trais a Cham-drin Domestig.[49]

**51.** Pan ofynnwyd iddo sut y datblygwyd costau sy'n ymwneud â'r Cynghorydd IAP, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol fel a ganlyn:

> *"… originally, the proposal was for a further commissioner. We know, from the cost of other commissioners, that the cost could have been quite significant, and that was certainly something the Welsh Government were wary of, putting it politely. So this proposal for the adviser is at a far lower cost, but the function will be critical."*[50]

**52.** Pan ofynnwyd iddi a oedd y costau'n ymwneud â'r Cynghorydd IAP yn darparu gwerth am arian, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

> *"It does align with our expenditure. We have already got proof of the effectiveness of a national adviser role in VAWDASV, and we do believe that this publicly appointed BSL adviser—and assisting panel, which is crucial; it's not just vested in one person—will really empower deaf leadership and strengthen collaboration and engagement between Welsh Government and the deaf BSL signing community … We'll get policy right if that's the case, and that has to be value for money and good government."*[51]

## Datblygu'r Strategaeth Genedlaethol a'r canllawiau cysylltiedig

**53.** Diben y Bil yw gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol, y mae'n rhaid i'r nodweddion canlynol berthyn iddi:

- disgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru eu hunain yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau; a hefyd

[48] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 84
[49] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 86
[50] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 38
[51] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 186

- disgrifio sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu annog cyrff cyhoeddus penodol i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau.[52]

**54.** Yn ôl yr Asesiad Effaith, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth IAP genedlaethol gyntaf o fewn 18 mis sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y dyddiad y mae'r Ddeddf hon yn dod i rym. Cyn cyhoeddi'r strategaeth IAP, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cynghorydd IAP yn y lle cyntaf, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.[53]

**55.** Rhaid adolygu'r strategaeth IAP o leiaf unwaith bob chwe blynedd o'r dyddiad y cafodd ei chyhoeddi gyntaf. Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ohoni.[54] Ochr yn ochr â'r strategaeth IAP a lunnir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff cyhoeddus rhestredig ar sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau.[55]

**56.** Mae'n dweud, hefyd, y bydd y strategaeth yn adeiladu ar waith sydd ar y gweill, fel y gwaith a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024 i lywio datblygiad "map llwybrau" IAP Llywodraeth Cymru. Mae'r Asesiad Effaith yn esbonio fel a ganlyn:

> "*Er ei bod yn debygol yn ymarferol y bydd yn tynnu ar waith Grŵp Rhanddeiliaid IAP, nid yw'n hysbys i ba raddau y bydd hyn yn wir. Nid yw'r costau sy'n ymwneud â'r Grŵp Rhanddeiliaid IAP yn hysbys ychwaith.*"[56]

**57.** Yn ôl yr Asesiad Effaith, bydd rhaid i Weinidogion Cymru, hefyd, gyhoeddi adroddiad i asesu'r cynnydd a wneir o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o leiaf unwaith bob tair blynedd ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi gyntaf.[57]

**58.** Mae'r Asesiad Effaith yn datgan, "er mwyn sicrhau'r amcangyfrif gorau posibl ar gyfer y costau gweinyddol, rhoddwyd ystyriaeth i gostau llunio

[52] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 86
[53] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 87
[54] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 87
[55] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 87
[56] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 87
[57] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 86

strategaeth genedlaethol fel y'u nodir mewn Biliau a gyflwynwyd yng Nghymru a'r Alban"[58], gan gynnwys y canlynol:

- Y Ddeddf Trais a Cham-drin Domestig, a oedd yn cynnwys £11,100 o gostau gweinyddol i baratoi strategaeth genedlaethol;[59]
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a oedd yn cynnwys £37,200 i gynhyrchu canllawiau statudol ac atodol;[60]
- amcangyfrifodd Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2015 y byddai costau gweinyddol i Lywodraeth yr Alban baratoi, ymgynghori a chyhoeddi Cynllun Cenedlaethol cychwynnol rhwng £40,000 a £80,000;[61] a hefyd
- amcangyfrifodd y Bil Bwyd (Cymru) mai cost darparu strategaeth genedlaethol fyddai £41,920.[62]

**59.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol, hefyd, fod deddfwriaeth arall o Ogledd Iwerddon a Seland Newydd wedi cael ei harchwilio wrth ddatblygu costau'r Bil.[63] Teimlai'r Ysgrifennydd Cabinet fod y dull o edrych ar ddeddfwriaeth flaenorol yn werthfawr iawn.[64]

**60.** Yn ogystal, eglurodd swyddog a oedd yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r Aelod sy'n gyfrifol i ddatblygu costau sy'n ymwneud â'r darpariaethau hyn:

> "*We provided Mark Isherwood's Bill team with the figures for what it takes currently to provide the leadership and the cross-Government work for the BSL stakeholder group that we have, and the development of the BSL route-map. Obviously, there are additional costs in this in relation to interpretation and translation, which won't be reflected in other legislation.*"[65]

[58] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 87
[59] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015: Memorandwm Esboniadol, Chwefror 2025, tudalen 54
[60] Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Mehefin 2022
[61] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban): Memorandwm Esboniadol, Hydref 2014
[62] Y Bil Bwyd (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Rhagfyr 2022
[63] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 53-54
[64] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 169
[65] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 18 Medi 2025, paragraff 193

**61.** Rhoddodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Aelod sy'n gyfrifol fewnwelediad pellach i gyfrifiad yr Asesiad Effaith o'r costau staff sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau hyn yn y Bil:

> *"... you are ... almost starting from scratch and assuming nothing has been done beforehand. That way, we set out the pay grades of people we thought would be involved, from director level downwards, and also the additional costs of providing and consulting in BSL. So, we're confident that they seem to be reasonable costs for the entirety of it."*[66]

## Costau cyrff cyhoeddus rhestredig

**62.** Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus rhestredig baratoi a chyhoeddi cynllun IAP, y mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

- Disgrifio sut y mae'r corff yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau;
- disgrifio sut y mae'r corff hwnnw'n bwriadu dilyn y canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 3 o'r Bil; a hefyd
- cynnwys unrhyw wybodaeth arall y caiff Gweinidogion Cymru ei nodi mewn rheoliadau.[67]

**63.** Mae'r 34 corff cyhoeddus rhestredig yn cynnwys y 22 awdurdod lleol, saith Bwrdd Iechyd Lleol, tri Ymddiriedolaeth GIG a dau Awdurdod Iechyd Arbennig (Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)).[68]

**64.** Mae'r Bil, hefyd, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff rhestredig baratoi a chyhoeddi adroddiad yn disgrifio'r hyn y maent wedi'i wneud i weithredu eu cynlluniau, a pham nad ydynt, efallai, wedi rhoi elfennau o'u cynllun ar waith.[69]

**65.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cabinet yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau gweinyddol i gyrff cyhoeddus a restrir ar gyfer ail flwyddyn y Bil a'r blynyddoedd dilynol yn amcangyfrif rhesymol o'r adnoddau a'r gost sy'n ofynnol, yn unol â chostau presennol Asesiadau*

[66] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 42
[67] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 93
[68] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 91
[69] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 93

*Effaith Rheoleiddiol, megis Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).”*[70]

**66.** Mae’r Asesiad Effaith yn sôn y bydd cost cynhyrchu cynlluniau awdurdodau cyhoeddus yn cynnwys amser staff i ddatblygu ac ymgynghori ar gynllun drafft, yn ogystal â chyhoeddi a dosbarthu'r cynllun terfynol. Bydd costau cyhoeddi yn amrywio yn dibynnu ar y math o gyhoeddiad a ddewisir. Bach iawn yw’r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi ar-lein. Mae gofyniad i gyhoeddi cynlluniau ar fformat IAP.[71]

**67.** Rhoddwyd ystod costau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus rhestredig, gan neilltuo adnoddau amser i staff ar sail graddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ar gyfer 2024-25. Tybiwyd y bydd gan sefydliadau'r GIG yr un mewnbwn adnoddau ac y byddant yn defnyddio staff ar raddfeydd cyflog cyfatebol.[72]

**68.** Mae costau ymgynghori yn cynnwys cyfieithu deunyddiau i IAP, ac yn ogystal â hyn mae costau IAP o hanner diwrnod ar gyfer dau arwyddwr IAP ac un cofnodwr, a gyfrifir i fod yn £3,259 fesul sefydliad rhestredig. Costau cyhoeddi yw £500 fesul sefydliad rhestredig, wedi'u huwchraddio yn ôl chwyddiant.[73]

**69.** Mae'r ystod cost uchel yn tybio y bydd angen 20 diwrnod ar aelod o staff pwynt 48, 40 diwrnod ar aelod o staff pwynt 40 a 40 diwrnod ar aelod o staff pwynt 25 ar bob sefydliad. Mae ystod is o gostau wedi'i chynnwys, lle mae costau staff yn caniatáu mwy o amrywiad o ran maint y corff.[74]

**70.** Mae’r Asesiad Effaith yn nodi ei bod yn ofynnol i gyrff rhestredig adolygu cynlluniau o fewn 12 mis i gyhoeddi unrhyw strategaeth IAP genedlaethol ddiwygiedig gan Weinidogion Cymru. Amcangyfrifir y bydd costau diwygio cynlluniau ar gyfer cyrff rhestredig sy'n penderfynu diweddaru eu cynlluniau yn dilyn yr adolygiad yr un fath â'r ystod is a amcangyfrifwyd.[75]

**71.** Mae hefyd yn nodi’r canlynol:

---

[70] Llywodraeth Cymru, Safbwynt Llywodraeth Cymru ar gostau Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru), Medi 2025, tudalen 3
[71] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 94
[72] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 94
[73] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 94
[74] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 94
[75] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 93

> *"Nid yw cost gweithredu'r cynlluniau wedi'i chynnwys yn yr asesiad effaith hwn. Bydd hyn yn dibynnu ar y camau gweithredu sy'n ofynnol yn y strategaeth IAP genedlaethol, a fydd yn cael ei chynhyrchu gan Weinidogion Cymru."*[76]

**72.** Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai cost flynyddol gyfartalog paratoi a chyhoeddi cynlluniau IAP i bob corff cyhoeddus rhestredig yn £7,500, gan ychwanegu fel a ganlyn:

> *"Clearly, it'll be more front-end loaded at the beginning, where the higher admin costs in delivering what the Bill requires will be higher, and in some years lower. But that would be the average for the Bill itself. It doesn't, of course, as we've already discussed, cover any costs resulting from actions following the plans."*[77]

**73.** Pan ofynnwyd iddo a allai'r costau fod yn is na'r rheini a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith, dywedodd swyddog a oedd yng nghwmni'r Aelod sy'n gyfrifol y canlynol:

> *"It's all around how much collaboration there is. I think we felt we'd do a higher estimate, which would be all organisations almost working on their own. But … local authorities … were also feeding back, 'We really would like to see this done at a regional partnership level.'* So, we would expect the cost to be at the lower end."[78]

## Barn y Pwyllgor

**74.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod disgwyl i'r Bil sicrhau gwerth am arian hirdymor drwy wella mynediad at wasanaethau i ddefnyddwyr byddar IAP a lleihau aneffeithlonrwydd a achosir gan rwystrau cyfathrebu, a bod y Cynghorydd IAP a'r Panel Cynorthwyo IAP yn allweddol i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol, ac yn ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid.

**75.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid ar gyfer y Bil hwn ar gyfer 2026-27 ac yn cydnabod mai llywodraethau'r dyfodol fydd yn penderfynu ar drefniadau y tu hwnt i'r pwynt hwn. Rydym, hefyd, yn nodi'r

[76] Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru): Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2025, tudalen 93
[77] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 60
[78] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 24 Medi 2025, paragraff 63

gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi IAP, ac o'r farn ei fod yn ategu nodau ac amcanion y Bil.

**76.** Serch hynny, roedd hi'n anodd inni ddatgysylltu'r costau a amlinellir yn yr Asesiad Effaith oddi wrth y costau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo iddynt yn y maes polisi hwn. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai rhai costau yn yr Asesiad Effaith fod wedi'u gorbwysleisio, yn enwedig os oes trefniadau i gyflawni amcanion polisi IIAP eisoes ar waith ac wedi'u hariannu'n briodol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu asesu hyn yn effeithiol o ystyried y diffyg eglurder ynghylch sut y bydd polisïau arfaethedig IAP Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio ag amcanion y Bil, ac rydym yn gofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol weithio gyda Llywodraeth Cymru yn y maes hwn i gael gwell syniad a yw'r costau disgwyliedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gywir.

**77.** Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod yr Aelod sy'n gyfrifol wedi seilio ei amcangyfrifon costau ar ddarpariaethau tebyg o fewn deddfwriaeth bresennol, sef Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2015. Rydym yn cydnabod bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer y costau yn yr Asesiad Effaith wedi'i llywio gan yr enghreifftiau hyn, a bod rhai costau'n uwch oherwydd cynnwys anghenion penodol ar gyfer IAP, megis cyfieithu ar y pryd. Rydym o'r farn bod hwn yn ddull synhwyrol o gynhyrchu amcangyfrifon costau ac yn gwneud y defnydd gorau o'r data sydd ar gael i gynhyrchu trosolwg clir o gostau'r Bil.

**78.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn debygol y bydd costau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn disgyn ar y cyrff cyhoeddus a restrir wrth iddynt weithredu eu cynlluniau unigol IAP. Er ein bod yn cydnabod bod natur fframwaith y Bil yn golygu nad yw'r costau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith, mae'n parhau i fod yn anodd deall yn llawn beth effaith ariannol y Bil yn y maes hwn, gan gynnwys sut y disgwylir i gyrff cyhoeddus amsugno'r costau hyn o fewn cyllidebau presennol.

**79.** Mae'r Pwyllgor, hefyd, o'r farn bod yna risg y gallai costau gweithredu gynyddu yn ystod y cyfnod asesu, o ystyried bod maint y costau gweithredu, yn enwedig i gyrff cyhoeddus, yn ansicr ac yn seiliedig ar ystod o gostau. Credwn y gellid lliniaru'r ansicrwydd hwn drwy adolygiad cadarn o'r ddeddfwriaeth ar ôl ei gweithredu, a ddylai gynnwys asesiad o gostau gwirioneddol gweithredu'r Bil. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi cynnal gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar[79]

[79] Y Pwyllgor Cyllid, Adolygiad ôl ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019

Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019[80], a oedd yn cynnwys asesiad o gostau. Rydym o'r farn bod y darpariaethau adolygu statudol yn y Ddeddf honno'n gwasanaethu fel model arfer da ar gyfer yr holl ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y Senedd.

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod y dull o amcangyfrif costau'r Bil drwy ddefnyddio deddfwriaeth gymharol yn gwneud defnydd effeithiol o ddata a methodolegau presennol, a bod hyn wedi cynhyrchu trosolwg clir a chredadwy o oblygiadau ariannol y Bil.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i egluro sut y bydd ei pholisïau presennol IAP, a'r polisïau sydd wedi'u cynllunio, yn rhyngweithio â darpariaethau'r Bil, er mwyn penderfynu a yw'r amcangyfrifon costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn adlewyrchu gofynion ariannol ychwanegol yn fanwl gywir, neu a allai rhai costau eisoes fod wedi'u talu drwy ymrwymiadau presennol.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi rhagor o eglurder ynghylch y costau sy'n deillio o'r Bil i gyrff cyhoeddus rhestredig, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu cynlluniau IAP.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Bil, a'i fod yn cynnwys asesiad o gostau a manteision cyffredinol y Bil, ac a yw hyn yn bodloni'r costau disgwyliedig a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

[80] Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019